

ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO
NOS IAU 17^{EG} MAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion–Cadeirydd	Bedwyr Gwilym
Erwyn Jones	Annwen Daniels
Will G Roberts	
Rory Francis	

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd W G Roberts Cais Cynllunio Rhif C16/0115/03/LL

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/511F
Ymgeisydd Mr Gwilym Williams
Gwylan
Ffestiniog
Datblygiad preswyl am 16 tŷ (marchnad agored) yn cynnwys byngalo presennol a gymeradwywyd o dan Ganiatâd Cynllunio NP5/59/511A dyddiedig 4ydd Chwefror 2005
Gwrthwynebu'r cynllun hwn.
Mae'r cais hwn yn groes i sawl adran o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022.

Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy sef -

5.1 Cefnogi datblygiad priodol sy'n cwrdd ag angen tai'r gymuned leol, gan ystyried yn arbennig tai fforddiadwy i bobl leol
Cefnogi darpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol drwy'r ardal gyfan Annog cyfleusterau hamdden gymunedol ble maent yn cwrdd ag angen lleol a ble nad ydynt yn gwrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc
Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi hyfywedd yr iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n an-sensitif i'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

Polisi Strategol Tai

Bydd angen i dai newydd yn y Parc Cenedlaethol gwrdd ag angen cymunedau lleol. Rhaid i geisiadau gymryd ystyriaeth briodol o anghenion tai lleol yn nhermau maint, math a daliadaeth eiddo.
Dylai'r mathau o dai adlewyrchu canlyniadau'r Asesiad Marchnad Dai Lleol neu unrhyw arolygon anghenion lleol priodol.
Bydd y cyflenwad o dai newydd yn cael ei ddarparu drwy:
Safleoedd a Neilltuwyd

- i. **Dyrannu safleoedd ar gyfer 100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol ar dir cyhoeddus a 50% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol ar dir preifat o fewn ffiniau datblygu tai aneddiadau (a ddangosir ar y mapiau manwl).**

18 Polisi Datblygu

Yr iaith Gymraeg a ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau

Wrth bennu'r holl geisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol bydd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy: i. Gefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella integreidd yr iaith Gymraeg.

ii. Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:

- a) 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol'i fynd gyda chais cynllunio
- b) b) Aseiad mwy manwl ar ffurf 'Aseiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol'

Mae angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fod yn gadarn ar hyn a gofynnir a yw'r ymgeisydd wedi gallu profi'r angen lleol am y tai hyn?

2. Cais Cynllunio Rhif C16/0189/03/LL
Ymgeisydd Mr T V Woolway
Llwyn Rhedyn
Sgwâr Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Cais ôl gweithredol i gadw llwyfannau pren i gefn yr annedd
Gwrthwynebu'r cynllun hwn. Nid yw maint nac uchder y datblygiad yn glir o'r cynlluniau ond wrth gael cyfarfod ar y safle fe welwyd yn glir maint ac uchder y datblygiad. Mae'r datblygiad yn amharu'n arw ar breifatrwydd trigolion cyfagos, rhai ddim yn gallu agor llenni yn eu llofft o'i herwydd a bu i'r Cyngor Tref cael sawl cwyn amdano.
3. Cais Cynllunio Rhif C16/0115/03/LL
Ymgeisydd Mrs H Ellis
3 a 4 Gwaenydd Road
Rhiwbryfdir
Blaenau Ffestiniog
Newidiadau allanol a ewnol er mwyn dychwelyd un annedd preswyl presennol i'w ddefnydd gwreiddiol fel dau annedd preswyl ar wahan.
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C16/0196/03/AC
Ymgeisydd BIPBC
Canolfan Coffa Ffestiniog
Blaenau Ffestiniog
Rhyddhau amod 10 ar C14/0112/03/LL
Caniatáu